



Adran Amgylchedd a Chynllunio
Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
Polisi Gorfodi
(Fersiwn 4, 2017)





Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

(Diweddarwyd Awst 2017) Fersiwn 4

Mynegai

Rheoli Dogfen.....	2
1 Cyflwyniad.....	4
2 Ein Dull – sut byddwn yn gweithio yn ymarferol?	5
3 Rheoleiddio Effeithiol.....	6
3.1 Cefnogi Ffyniant Economaidd.....	6
3.2 Defnyddio Dulliau Asesu Risg Effeithiol.....	7
3.3 Canolbwyntio ar Atal.....	7
3.4 Targedu Ymweliadau Archwilio.....	8
3.5 Adolygu Prosesau ar gyfer Ceisio Gwybodaeth.....	9
4 Cosbau Gorfodi Rheoleiddio	10
4.1 Penderfyniad i gynnal gorfodi ffurfiol.....	10
4.2 Lefelau o Gamau Gorfodi.....	10
4.3 Rhybuddion Statudol (Cyfreithiol)	11
4.4 Addewidion Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi	12
4.5 Rhybuddion Cosb Benodedig	12
4.6 Rhybuddion Syml.....	12
4.7 Erlyniadau.....	13
4.8 Elw Troseddau.....	14
4.9 Casglu Tystiolaeth	14
4.10 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	15
5 Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion	15
6 Bod ag Atebolrwydd Clir am ein Penderfyniadau a'n Gweithredoedd	16
7 Gweithdrefn Gwyno.....	16
8 Adborth a Sylwadau	16

Rheoli Dogfen

Cyfeirnod copi		Dyddiad
Fersiwn 3	Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd – Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	Mai 2010
Fersiwn 4	Adran Amgylchedd a Chynllunio - Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	Chwefror 2017

Cofnod Diwygiad/Diweddariad/Adolygiad		
Diwygiad Rhif	Diweddarwyd gan [enw a theitl]	Dyddiad
1	<p>P. Osborne (Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd). Fersiwn 4 – Cytunwyd gyda'r Rheolwr Gwasanaeth a chadarnhawyd gan yr Aelod Arweiniol Penderfyniad wedi'i ddirprwyo 20/3/17</p> <p>Mae diwygiadau wedi'u crynhoi fel a ganlyn:- cywiro gramadeg; diweddarau terminoleg i adlewyrchu newidiadau o ran strwythur adrannol y Cyngor a threfniadau adrodd cysylltiedig; rhoi cymal ac atodiad cysylltiedig i gyfeirio at bolisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill mae'n rhaid eu hystyried wrth i ystyriaeth gael ei rhoi i orfodi yn y meysydd pwnc penodol hynny.</p>	20/3/17
2	P. Osborne (Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd) - adolygiad i atodiad i ddiweddarau rhestr is-bolisiau	16/8/17

1 Cyflwyniad

1.1 Mae rheoleiddio a gaiff ei arwain gan wybodaeth ac a gaiff ei dargedu yn hanfodol o ran hyrwyddo tegwch a diogelu rhag niwed. Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cydnabod yn llawn bod angen i reoleiddio effeithiol fod yn gymesur a hyblyg. Mae angen rheoleiddwyr da ar fusnesau da ac mae rheoleiddwyr da yn gweithio'n adeiladol gyda busnesau i sicrhau cystadleuaeth deg a chefnogi economïau lleol. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i'r gwaith gorfodi rydym yn ei wneud gyda'r cyhoedd. Lle bo'n briodol byddwn yn ceisio darparu cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd camau gorfodi yn angenrheidiol. Dim ond pan fydd rhannau perthnasol o'r polisi hwn wedi eu hystyried fydd camau gorfodi o'r fath yn cael eu cymryd.

1.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo dulliau effeithlon ac effeithiol o drin archwiliadau rheoleiddio a gorfodi sy'n hyrwyddo canlyniadau rheoleiddio allweddol heb roi beichiau diangen.

Nodau Rheoleiddio Allweddol:

- *llai o anghydraddoldebau o ran iechyd;*
- *llai o achosion o wenwyn bwyd neu glefydau anifeiliaid;*
- *llai o ddamweiniau, anafiadau a salwch a achosir gan waith;*
- *llai o lygredd a throsteddau amgylcheddol eraill*
- *cymunedau diogelach a chryfach*
- *safonau gwell o ran cydymffurfiaeth busnes.*

1.3 Felly byddwn yn mabwysiadu dull cadarnhaol, rhagweithiol a chytbwys i sicrhau cydymffurfio. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfuniad o:

- gyngor, gwybodaeth, help a chefnogaeth i fusnesau a'r cyhoedd sy'n adlewyrchu anghenion a disgwyliadau; ac
- ymyriadau cymesur, wedi'u targedu a gaiff eu harwain gan wybodaeth lle mae achosion o dorri rheoliadau wedi'u nodi.

1.4 Yn y Polisi hwn, rydym yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gweithio yn unol â'r egwyddorion hyn yn ymarferol. Rydym yn disgrifio ein dull cyffredinol a'r amgylchiadau pan gaiff cosbau rheoleiddio difrifol fel erlyn eu hystyried a'u defnyddio fel bod preswylwyr a dinasyddion yn deall ein dull o drin rheoleiddio effeithiol yn Wrecsam yn llawn.

1.5 Rydym wedi datblygu polisiâu effeithiol i drin gweithgarwch troseddol yn gymesur a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fusnesau dilys ac o ran cyflawni

canlyniadau rheoleiddio a ddymunir. Fodd bynnag, mae disgwyliad bod busnesau dilys yn gweithio gyda rheoleiddwyr i wella safonau masnachu ac felly gan gefnogi cyflawni canlyniadau rheoleiddio.

1.6 Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar reoleiddio'r gymuned fusnes ond mae nifer o swyddogaethau rheoleiddio yn cynnwys gorfodi yn erbyn unigolion, e.e. cŵn yn baeddu a gollwng sbwriel. Pan gaiff camau gorfodi eu hystyried yn erbyn unigolion byddwn yn ystyried yr egwyddorion perthnasol a'r safonau a amlinellir yn y polisi hwn.

Rhaid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau sy'n cwmpasu meysydd pwnc penodol, mae rhestr ohonynt ynghlwm yn Atodiad A; caiff y rhestr ei diweddarau o bryd i'w gilydd wrth i bolisïau newydd gael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu neu wrth i bolisïau presennol gael eu hadolygu.

2 Ein Dull – sut byddwn yn gweithio yn ymarferol?

2.1 Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion a dderbynnir o ran gorfodi effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyhoeddi ein Safonau Gwasanaeth:** byddwn yn cyhoeddi safonau gwasanaeth clir a phendant.
- **Bod yn Agored:** byddwn yn darparu gwybodaeth mewn iaith glir a syml ac egluro sut rydym yn bwriadu cefnogi busnesau dilys a'r cyhoedd er mwyn amddiffyn defnyddwyr a dinasyddion.
- **Bod yn Barod i Helpu:** rydym yn credu bod atal yn well na gwella ac felly byddwn yn archwilio ffyrdd o annog busnesau a'r cyhoedd i ofyn am help a chynghor er mwyn i ni allu helpu busnesau i gael pethau'n iawn y tro cyntaf.
- **Ymateb yn gadarnhaol i gwynion am ein gwasanaeth neu ein dull:** yn ddelfrydol, os byddwn yn cael y dull yn iawn, ni ddylem gael llawer o gwynion ond mae gennym lwybr clir i adrodd a gobeithio datrys cwynion yn foddhaol.
- **Cymryd camau cymesur a synhwyrol lle nodir achosion o dorri deddfwriaeth:** byddwn yn sefydlu'r ffeithiau a'r amgylchiadau a arweiniodd ar yr achos, byddwn yn ystyried y camau a gymerwyd i leihau effaith a byddwn yn asesu'r dull arfaethedig i osgoi achosion o dorri deddfwriaeth yn y dyfodol fel rhan o'n trafodaethau am gosbau posibl.
- **Bod yn deg a chyson:** byddwn yn sicrhau bod ein polisïau a'n harferion ein hunain yn cael eu deall a'u defnyddio gan ein swyddogion ar lawr gwlad. Byddwn yn buddsoddi yn eu dysgu a datblygu, ac er ein bod yn disgwyl i'n pobl arfer disgrisiwn a gweithio i lefelau uchel o arfer broffesiynol, rydym

wedi datblygu dulliau diogelu i sicrhau bod ein polisïau a'n harfer yn cael eu defnyddio'n deg a chyson. Mae'r dull yn cynnwys cyswllt effeithiol gydag asiantaethau gorfodi a chydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ac arfer gorau.

3 Rheoleiddio Effeithiol

3.1 Cefnogi Ffyniant Economaidd

3.1.1 Mae rheoleiddio a gorfodi effeithiol yn hanfodol i gefnogi ffyniant economaidd. Mae rheoleiddwyr da yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar ffyniant economaidd a'r effaith maen nhw'n eu cael ar fusnesau unigol a'r economi leol os byddant yn cael y balans rhwng rheoleiddio a gorfodi yn anghywir. Felly, mae'r polisi gorfodi hwn a'r ffordd y caiff ei weithredu'n yn ystyried yn llawn yr angen i gefnogi busnesau dilys drwy rhaglen o gyngor a gwybodaeth effeithiol i ddechrau i helpu busnesau i gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Mae'r dull hwn yn darparu manteision i reoleiddwyr a busnesau. Ein dull yw 'mae atal yn well na gwella':

Bydd ein dull yn cynnwys:

- Gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu perthnasoedd adeiladol a llawn ymddiriedaeth gyda busnesau lleol, yn enwedig busnesau newydd, fel eu bod yn hyderus am ofyn am help os bydd pethau'n mynd o chwith yn hytrach na cheisio cuddio pethau a gwneud pethau'n waeth.
- Deall ac ystyried maint, cymhlethdod a chwmpas gweithrediadau busnes i ddarparu lefel briodol a chymesur o gyngor a chymorth, yn enwedig gan ystyried effaith rheoleiddio ar fusnesau bach i ganolig.
- Ymgynghori â busnesau lleol, nodi eu hanghenion a'u disgwyliadau a darparu lefel briodol o gyngor a chymorth i fodloni neu ragori ar y disgwyliadau hynny os yw'n bosibl.
- Darparu cyngor busnes ymatebol ac effeithiol er mwyn i fusnesau gael mynediad i bobl o safon uchel i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith drwy ddarparu cyngor synhwyrol a phragmatig.
- Defnyddio ymyriadau wedi'u targedu ac a arweinir gan wybodaeth yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o risgiau fel bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n briodol ar feysydd risg uchaf.

- Datblygu system effeithiol ar gyfer datrys anghydfodau fel bod modd sicrhau'r canlyniadau rheoleiddio cywir heb greu baich diangen i fusnesau.
- Adolygu ein polisiâu, strategaethau ac arfer yn systematig a rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac effeithiol o ran sicrhau canlyniadau rheoleiddio heb roi baich diangen ar fusnesau.

3.2 Defnyddio Dulliau Asesu Risg Effeithiol

3.2.1 Bydd asesu risg effeithiol yn arwain gweithgarwch rheoleiddio a gorfodi. Bydd yn llywio sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i ganolbwyntio ar feysydd risg uchel fel eu bod yn cael eu defnyddio i'r effaith fwyaf i gefnogi busnesau a diogelu defnyddwyr gan arwain at ganlyniadau rheoleiddio gwell.

3.2.2 Byddwn yn defnyddio asesu risg i:

- Nodi tebygolrwydd risgiau sylweddol i iechyd, diogelwch, neu les pobl leol a chymunedau, yr amgylchedd a masnachu teg a ffyniant economaidd; a
- Sicrhau bod ein gweithredoedd a'n hymyriadau yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol at y risgiau uchaf i bobl cymunedau a busnesau dilys lleol a'u bod yn llwyddiannus wrth eu lleihau.

3.2.3 Mae ein fframwaith asesu risg yn cynnwys asesiad o effaith gyfun:

- effaith bosibl diffyg cydymffurfio ar ganlyniadau rheoleiddio; a'r
- tebygolrwydd y bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio'n digwydd.

3.2.4 Bydd ein dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a gaiff ei arwain gan wybodaeth, yn llywio datblygiad rhaglen o archwiliadau wedi'u cynllunio.

3.2.5 Wrth werthuso tebygolrwydd achosion o ddiffyg cydymffurfio, byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

- lefelau blaenorol o gydymffurfiaeth busnes a nodi risgiau posibl yn y dyfodol;
- presenoldeb systemau rheoli risg effeithiol;
- tystiolaeth o asesiadau trydydd parti rheolaidd ac effeithiol; a
- gallu rheoli a pharodrwydd i gydymffurfio.

3.3 Canolbwyntio ar Atal

3.3.1 Bydd ffocws allweddol o'n dull o ran atal yn cynnwys datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol ac adeiladol gyda busnesau drwy rwydweithiau presennol a chysylltiadau. Rydym yn cydnabod y gall busnesau bach, yn benodol, deimlo wedi eu llethu gan raddfa a chymhlethdod deddfwriaeth sy'n cwmpasu eu gweithredoedd busnes.

3.3.2 Yn ein holl gysylltiad gyda busnesau, byddwn yn ceisio:

- lle bo angen a lle bo'n briodol, darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau sy'n seiliedig ar y sector.
- darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i'w gwneud yn haws i fusnesau ddeall a gweithredu beth sydd angen ei wneud;
- sicrhau bod y wybodaeth, cyngor a chanllawiau rydym yn eu darparu yn syml, clir a chryno a'u bod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chyfryngau; ac
- asesu ansawdd a hygyrchedd ein gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn rheolaidd a systematig i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gywir, dibynadwy ac addas at y diben drwy asesu lefelau boddhad gyda busnesau.

3.3.3 Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau, yn ein holl gyswllt gyda busnesau, ein bod yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol penodol a chanllawiau/arfer gorau wedi'u hanelu at ddarparu gwelliannau uwchlaw safonau gofynnol. Fodd bynnag, byddwn yn annog busnesau i geisio sicrhau safonau uwch a helpu i gefnogi'r rhai sy'n dymuno cymryd y dull hwn.

3.3.4 Darperir gwasanaethau yn rhad ac am ddim fel arfer. Pan fydd taliadau yn berthnasol, byddwn yn gwneud hyn yn glir cyn darparu unrhyw rai o'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, mae datblygu perthynas Awdurdod Sylfaenol yn cynnwys cwmpas ar gyfer codi tâl.

3.4 Targedu Ymweliadau Archwilio

3.4.1 **Dim archwiliad heb reswm dilys** – Byddwn yn ceisio peidio cynnal ymweliadau archwilio i eiddo busnes oni bai bod rheswm penodol y gellir ei gyfiawnhau am wneud hynny. Bydd unrhyw ymweliadau archwilio wedi'u trefnu yn cael eu llywio gan ddefnyddio fframwaith asesu risg cadarn a thryloyw. Defnyddir y fframwaith asesu risg i ddefnyddio adnoddau ac archwiliadau uniongyrchol.

3.4.2 **Adborth amserol ac effeithiol** – Ar ddiwedd ymweliad archwilio, bydd ein swyddogion yn rhoi diweddariad ar lafar o'u canfyddiadau er mwyn dod i gytundeb ar y camau cywiro arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o arfer da a meysydd gwella. Caiff unrhyw gyngor, canllawiau neu gyfarwyddiadau penodol eu cadarnhau yn ysgrifenedig fel arfer.

3.4.3 Ymweliadau Archwilio ar y Cyd – Byddwn yn ceisio cydlynu ein rhaglenni archwilio fel nad yw busnesau yn destun archwiliadau lle bo hyn yn synhwyrol ac ymarferol. Byddwn yn datblygu ein rhaglenni archwilio i sicrhau ein bod yn cael y balans cywir rhwng darparu'r wybodaeth a chyngor cywir ar yr adeg gywir yn erbyn angen i osgoi cyswllt gydag archwilwyr arbenigol gwahanol. Byddwn hefyd yn cydweithredu gydag asiantaethau rheoleiddio eraill i sicrhau lle bynnag bo'n ymarferol, nad yw ein rhaglenni archwilio yn achosi baich diangen i fusnesau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau rhannu gwybodaeth ac archwilio lle gellir sicrhau'r canlyniadau rheoleiddio a rennir drwy ddull cydlynol o ran ymweliadau archwilio.

3.5 Adolygu Prosesau ar gyfer Ceisio Gwybodaeth

3.5.1 Cadw ceisiadau am wybodaeth i leiafswm – Byddwn yn ceisio sicrhau nad ydym yn gofyn i fusnesau am wybodaeth oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth allweddol a byddwn yn datblygu systemau gwybodaeth i geisio osgoi unrhyw sefyllfaoedd lle rydym yn gofyn am yr un wybodaeth fwy nag unwaith.

3.5.2 Cynnig dewis o ran y ffordd mae busnesau yn gallu darparu gwybodaeth – Pan fo rhaid i wybodaeth gael ei darparu byddwn yn ceisio sicrhau bod y systemau a phrosesau ar gyfer darparu gwybodaeth o'r fath yn glir, syml a hygyrch. Yn benodol, byddwn yn datblygu cymwysiadau priodol yn seiliedig ar y we i ganiatáu cyflwyno electronig a chynnig dewis o lwybrau mynediad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddisgwyliadau busnes.

3.5.3 Diogelu Data - Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu ddata rydym yn eu cadw yn gywir, wedi'u glanhau'n rheolaidd a'u storio'n ddiogel.

3.5.4 Defnyddio Gorfodi Wedi'i Dargedu a Gaiff ei Arwain gan Wybodaeth – Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o fusnesau rydym yn cysylltu â nhw yn ddilys ac rydym am ymgysylltu'n adeiladol gyda rheoleiddwyr. Rydym wedi disgrifio ein dull o ran atal drwy gyngor, gwybodaeth a chanllawiau i'r grŵp hwn o fusnesau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, fel y mwyafrif helaeth o'r gymuned fusnes, nad oes lle i'r rhai sy'n dymuno gweithredu y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio. Felly, bydd ein dull yn wahanol i unigolion a busnesau sydd yn:

- gweithredu'n dwyllodrus neu annheg; a/neu
- defnyddio arferion masnachu annheg ac yn methu dilyn cyngor; a/neu
- rhoi iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, cwsmeriaid, defnyddwyr ac ymwelwyr mewn perygl; a/neu
- methu dilyn cyngor am ofynion cyfreithiol yn rheolaidd er bod y rheoleiddiwr wedi ceisio sicrhau cydymffurfiaeth gydag ymdrechion sylweddol; a/neu

- ceisio cael mantais gystadleuol dros fusnesau dilys drwy arferion masnachu twyllodrus neu annheg.

4 Cosbau Gorfodi Rheoleiddio

4.1 Penderfyniad i gynnal gorfodi ffurfiol

4.1.1 Pan fydd y dull cynghorol yn methu sicrhau lefel ddigonol o gydymffurfio, camau gorfodi ffurfiol fydd y cam nesaf. Pan fydd camau gorfodi ffurfiol yn cael eu hystyried (Cam 3 isod), byddwn bob amser yn ceisio egluro rhesymau dros y camau arfaethedig. Bydd penderfyniad i gymryd camau gorfodi dim ond yn cael ei wneud ar ôl i bob ymdrech resymol i sicrhau cydymffurfio gael ei wneud, ar wahân i pan fo'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn ddifrifol iawn o ran natur a phan fo camau uniongyrchol yn angenrheidiol a phriodol. Caiff penderfyniad o'r fath a wneir ei gyfathrebu mewn modd amserol ac effeithiol.

4.1.2 Wrth i chi ystyried pa fath o gamau gorfodi i'w cymryd er mwyn ceisio cydymffurfiaeth, rhaid rhoi ystyriaeth, lle bo'n briodol, i'r Cynlluniau Awdurdod Cartref, Arweiniol, Gwreiddiol neu Sylfaenol. Yn benodol, os oes gan fusnes bartneriaeth Awdurdod Sylfaenol gydag Awdurdod Lleol (yn amodol ar eithriadau a nodwyd), ni ddylid cymryd camau ffurfiol heb ganiatâd yr Awdurdod Lleol hwnnw.

4.2 Lefelau o Gamau Gorfodi

4.2.1 Pan fo tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio deddfwriaethol wedi'i sefydlu, ystyrir yr hierarchaeth ganlynol o ran dull gweithredu:

Cam 1 Hyrwyddo – fel rhan o'n rhaglen barhaus o gyngor, gwybodaeth a chymorth, byddwn yn ceisio perswadio drwy drafod, mabwysiadu arfer da a chynyddu dealltwriaeth busnesau o'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau lefelau gwell o ran cydymffurfiaeth. Bydd hyn yn cynnwys yr amrywiaeth eang o weithgareddau a ddisgrifir yn y ddogfen hon a drwy gyswllt uniongyrchol gyda busnesau a chymdeithasau masnach.

Cam 2 Rhybuddion Anffurfiol – defnyddir pan fo tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio ond nad yw natur yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn gwarantu camau ffurfiol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn faterion technegol sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth neu gamddehongliad o'r cyngor, gwybodaeth neu ganllawiau a ddarparwyd. Caiff natur yr achos o ddiffyg cydymffurfio a'r camau cywiro angenrheidiol i gywiro'r mater eu hegluro ar lafar a'u

cadarnhau yn ysgrifenedig gyda dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r camau cywiro. Caiff cyfle ei roi i'r busnes gael adolygiad o'r penderfyniadau hyn gan uwch reolwr os ydynt yn credu nad oedd y rhybudd wedi'i gyfiawnhau neu'n amhriodol.

Cam 3 Camau Gorfodi Ffurfiol - mae hyn yn cynnwys rhoi rhybuddion statudol, addewidion ysgrifenedig a gorchmynion gorfodi; gwrthod rhoi trwydded neu gofrestrriad neu eu dirymu; rhoi rhybuddion, rhybuddion cosb benodedig, rhybuddion cosb ar gyfer anhrefn a/neu erlyniad. Dilynir y camau hyn yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol statudol, codau ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau proffesiynol cenedlaethol. Yn ogystal, pan fo aelodau'r cyhoedd angen eu hamddiffyn rhag ymddygiad sy'n debygol o achosi aflonyddu, brawychu neu drallod, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn ceisio Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol naill ai fel cam annibynnol neu ar ôl collfarn.

4.2.2 Pan gaiff achosion eu hystyried ar gyfer erlyniadau neu rhybuddion syml, byddwn yn defnyddio dau brawf: y **Prawf Tystiolaethol** a'r **Prawf Budd y Cyhoedd**. Ar gyfer y Prawf Tystiolaethol, byddwn yn bodloni ein hunain bod digon o dystiolaeth i roi 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Mae hwn yn brawf gwrthrychol sy'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon, a gyfarwyddir yn briodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Ystyrir y Prawf Budd y Cyhoedd ym mhob achos lle mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Byddwn yn pwysu a mesur ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Mae ffactorau budd y cyhoedd fel arfer yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd neu amgylchiadau'r sawl sydd dan amheuaeth.

4.3 Rhybuddion Statudol (Cyfreithiol)

4.3.1 Mae sawl darn o ddeddfwriaeth a ofodir gan y Cyngor yn darparu ar gyfer rhoi rhybuddion statudol. Mae'r rhybuddion hyn yn golygu bod angen i berson, busnes neu sefydliad gydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol. Pan gaiff rhybudd ffurfiol ei roi, darperir y dull o apelio yn erbyn y rhybudd (h.y. os yw'n derbynnydd yn teimlo nad yw'r rhybudd wedi'i gyfiawnhau neu ei fod yn eithafol o ran ei ofynion) yn ysgrifenedig ar yr un pryd. Bydd y rhybudd yn egluro beth sydd o'i le, beth sydd ei angen i gywiro pethau ac amlinellu canlyniadau methu â chydymffurfio â'r rhybudd.

4.3.2 Yn gyffredinol, bydd methiant i gydymffurfio â rhybudd statudol a ysgrifennwyd ac a roddwyd yn briodol yn golygu y gellid erlyn y sawl sy'n ei dderbyn. Mewn rhai achosion, bydd y Cyngor yn gallu, a bydd yn gwneud gwaith i gydymffurfio â'r rhybudd ac adennill cost gwneud hynny oddi wrth y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad. Mewn rhai amgylchiadau, gallai erlyniad a rhoi rhybudd fod yn briodol.

4.4 Addewidion Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi

4.4.1 Pan fydd unigolyn neu sefydliad yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn gyson, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn ceisio addewid ysgrifenedig gan y person hwnnw y byddant yn rhoi'r gorau i'r gweithredu y gwnaed y gŵyn amdano. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu na chymerir camau ffurfiol pellach.

4.4.2 Mewn achosion pan fo unigolyn neu sefydliad wedi torri neu fethu â darparu addewid ysgrifenedig i roi'r gorau i'r gweithredu y gwnaed y gŵyn amdano, mae'n bosibl y caiff cais i'r llys ei wneud am orchymyn gorfodi, neu mae'n bosibl y chymerir camau ffurfiol eraill yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol.

4.5 Rhybuddion Cosb Benodedig

4.5.1 Mae'n bosibl y defnyddir rhybuddion cosb benodedig fel ffordd o gael gwared ar y drosedd drwy dull ar wahân i erlyn. Cyfle'r troseddwr i osgoi collfarn yw talu cosb yn ei le. Nid yw methu talu rhybudd cosb yn drosedd yn ei rinwedd ei hun yn gyffredinol, a phe na bai derbynnydd yn talu'r gosb a gynigir, bydd angen erlyn ar gyfer y drosedd.

4.5.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol ar ddefnydd rhybuddion cosb benodedig. Yn benodol bydd yr amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

- (a) rhaid bod â thystiolaeth ddigonol i roi rhagolwg realistig o gollfarn; (b) nid yw'r drosedd yn rhy ddirifol ac o natur sy'n addas i gael ei thrin gyda rhybudd cosb.

4.6 Rhybuddion Syml

4.6.1 Dan amgylchiadau penodol mae'n bosibl y bydd rhybudd yn ddewis amgen priodol i erlyniad. Ystyrir yr opsiwn hwn cyn erlyniad. Mae rhybudd yn fater dirifol, a gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad i gychwyn achos pe bai'r person (cwmni neu endid cyfreithiol tebyg) yn troseddu eto. Gellir cyfeirio ato mewn unrhyw achos llysoedd.

4.6.2 Mae rhybuddion yn cyflawni'r canlynol:

- a) delio'n gyflym a syml gyda throeddau llai dirifol;
- b) osgoi mynd i lysoedd troseddol yn ddiangen;
- c) lleihau'r tebygolrwydd y bydd troseddwr yn aildroseddu.

4.6.3 Byddwn yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar rybuddio troseddwr sy'n oedolion ac yn benodol cyn rhoi rhybudd, rhaid bodloni'r amodau a ganlyn:

- (a) rhaid bod â thystiolaeth o euogrwydd sy'n ddigonol i roi rhagolwg realistig o erlyniad;
- (b) rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth gyfaddef y drosedd, fel arfer drwy lofnodi datganiad;
- (c) rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth ddeall arwyddocâd rhybudd, a rhoi caniatâd deallus i'r rhybudd.

4.7 Erlyniadau

4.7.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio disgresiwn wrth benderfynu a ddylid dechrau erlyniad. Pan fydd yr amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, mae'n bosibl y bydd erlyniad heb rybudd o flaen llaw yn digwydd.

4.7.2 Bydd y Cyngor yn ystyried erlyniad pan:

- (a) mae'n briodol dan yr amgylchiadau, fel ffordd o dynnu sylw at yr angen am gydymffurfiaeth gyda'r gyfraith, yn enwedig pan fyddai disgwyliad arferol i erlyn, neu pan
- (b) mae'n bosibl y bydd eraill yn cael eu rhwystro rhag troseddu, drwy erlyn troseddwr; neu
- (c) mae potensial y bydd niwed sylweddol yn codi o'r achos; neu
- (d) mae difrifwch y drosedd, gyda chofnod cyffredinol a dull y troseddwr yn ei gyfiawnhau.

4.7.3 Bydd y penderfyniad i erlyn bob amser yn ystyried y meini prawf a osodir yn y '**Code for Crown Prosecutors**'.

4.7.4 Cyn penderfynu erlyn, rhaid bod â thystiolaeth ddigonol ar gyfer rhagolwg realistig o erlyniad gan ystyried unrhyw amddiffyniad a allai fod ar gael, a **rhaid iddo fod er budd y cyhoedd**.

4.7.5 Ystyrir y meini prawf budd y cyhoedd a ganlyn fel arfer wrth benderfynu ar pa mor berthnasol yw achosion cyfreithiol, er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

- Nifer achosion y math o drosedd
- Yr angen am ataliad addas
- Y risg o berygl neu anaf i'r cyhoedd
- Methiant i gydymffurfio â rhybudd statudol neu ymateb i gyngor am ofynion cyfreithiol
- Diystyru gofynion cyfreithiol i gael budd ariannol
- Colled ariannol sylweddol, bosibl neu wirioneddol i drydydd parti
- Hanes o droseddau tebyg
- Achosion parhaus o dorri deddfwriaeth

- Pan fo twyll, esgeulustra difrifol neu wybodaeth o ran euogrwydd yn ffactor
- Mân achosion o dorri nifer o statudau

4.7.6 Lle bo modd, bydd troseddwr yn cael gwybod cyn gynted ag y ceir tystiolaeth ddigonol y gall erlyniad ddigwydd. Bydd erlyniadau'n cael eu dwyn heb oedi diangen.

4.7.7 Bydd y Cyngor yn ceisio cynyddu ei effeithiolrwydd drwy weithio gydag awdurdodau eraill ac asiantaethau eraill pan fo'n briodol, gan rannu gwybodaeth pan fo'n gyfreithlon gwneud hynny a chynnal gweithredoedd ar y cyd pan fyddai hynny'n dod â manteision.

Mae asiantaethau allanol rydym yn gweithio gyda nhw yn cynnwys:

- Yr Heddlu
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Comisiwn Gambo
- Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr - VOSA
- Y Gwasanaeth Tân
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Defra/Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol
- Y Swyddfa Masnachu Teg
- Yr Asiantaeth Adennill Asedau
- Adrannau gorfodi sefydliadau amddiffyn masnach fel y Ffederasiwn yn erbyn Dwyn Hawlfraint

4.7.8 Pan fu achos o dorri'r gyfraith a arweiniodd at farwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith, byddwn yn cysylltu gyda'r Heddlu, y Crwner a Gwasanaeth Erlyn y Goron ac os oes tystiolaeth o ddynladdiad (gan gynnwys dynladdiad corfforaethol), trosglwyddo'r achos i'r Heddlu neu, pan fo'n briodol, Gwasanaeth Erlyn y Goron.

4.8 Elw Troseddau

4.8.1 Mewn achosion priodol, gellir gwneud cais dan y Ddeddf Elw Troseddau ar gyfer atafaelu asedau i adennill y budd ariannol mae'r troseddwr wedi'i gael o ymddygiad troseddol. Cynhelir trafodion yn unol â'r safon profi sifil a gwneir ceisiadau ar ôl i gollfarn gael ei sicrhau ond cyn i'r troseddwr gael ei ddedfrydu.

4.9 Casglu Tystiolaeth

4.9.1 Mae cyrff rheoleiddio wedi'u grymuso i gasglu tystiolaeth drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys, lle bo'r briodol, yn ddirgel (heb i'r unigolyn/unigolion a dargedir fod yn ymwybodol o'r wylidwriaeth). Mae'n bosibl y defnyddir Teledu Cylch Caeedig neu ddyfeisiau recordio eraill. Ym mhob achos, ceisir awdurdod priodol cyn cynnal cuddwyllo yn unol â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).

4.10 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

4.10.1 Mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hystyried wrth lunio'r polisi hwn. Mae'n adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor ac mae'n unol â deddfwriaeth gwrth wahaniaethu. Caiff ei ddefnyddio yn unol â goblygiadau cyfreithiol y Cyngor waeth beth yw anabledd, rhyw, hil, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a statws priodasol unigolion neu unrhyw sail arall a allai olygu gwahaniaethu annheg neu afresymol.

4.10.2 Ni fydd y polisi yn cael effaith niweidiol ar grwpiau lleiafrifol a bydd grwpiau o'r fath yn cael yr un lefel o amddiffyniad rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd troseddau wedi'u targedu'n benodol at grwpiau lleiafrifol yn cael sylw priodol.

4.10.3 Bydd y Cyngor yn adolygu ein polisïau a'n harfer yn rheolaidd i sicrhau ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol.

5 Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion

5.1 Yn ogystal â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi hwn, bydd swyddogion bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol a chwrtais. Bydd Swyddogion, wrth i amgylchiadau ganiatáu, yn cyhoeddi pwy ydynt ac ym mha rinwedd maen nhw'n gweithredu wrth rywun mewn awdurdod yn y busnes. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd swyddogion yn oedi wrth ddweud pwy ydynt am resymau dilys tan gyfnod diweddarach ymchwiliad, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â gweithrediadau cudd. Bydd Swyddogion yn cario eu cerdyn adnabod neu awdurdodiad, ac yn ei ddangos, fel bo'n briodol.

Bydd Swyddogion yn ymgysylltu ag unigolion a grwpiau yn deg, adeiladol ac effeithiol heb wahaniaethu.

Gellir darparu dogfennau mewn fformatau eraill fel sain, print bras neu CD.

5.3 Byddwn yn sicrhau bod pob un o'n swyddogion yn gwbl ymwybodol o ddilyn y polisïau ag egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon, ac yn ymrwymedig

i hynny, drwy raglen o ddysgu a datblygu a phrosesau adolygu rheolaeth. Ein nod yw sicrhau bod y polisi yn cael ei ddefnyddio'n deg a chyson ar draws pob maes gwasanaeth fel ein bod yn sicrhau lefelau cydymffurfio uchel.

6 Bod ag Atebolrwydd Clir am ein Penderfyniadau a'n Gweithredoedd

6.1 Mae gan y Cyngor gynllun a ddiffinnir yn glir ar gyfer awdurdod dirprwyedig o ran gwasanaethau rheoleiddio a pholisi gorfodi. Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn rhan o adran a reolir gan Bennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio.

6.2 Mae Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio a/neu Reolwr y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi cyngor a chefnogaeth proffesiynol i aelodau etholedig yn ogystal ag arwain a rheoli'r gwasanaeth. Mae cyfraniadau'r Gwasanaeth i Gynllun Gwella'r Cyngor wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth. Caiff gwybodaeth berthnasol o Berfformiad Cynllun Gwasanaeth a threfniadau canlyniadau yn cael eu hadrodd i uwch reolwyr ac aelodau mewn modd sy'n briodol i'r maes gwasanaeth.

6.3 Caiff gwaith rheolaidd a systematig ei wneud drwy'r flwyddyn i asesu lefelau bodlonrwydd ac i dargedu gweithgarwch gwella lle mae lefelau bodlonrwydd yn anfoddfaol.

6.4 Caiff canlyniadau rheoleiddio fel arfer eu diffinio mewn fframwaith Cynllun Gweithredol Gwasanaeth sydd hefyd yn amlinellu'r blaenoriaethau a gweithgareddau gweithredol ar gyfer y 12 mis nesaf. Hefyd, mae Siarter Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cynnwys manylion fel amseroedd tagod ac oriau agor.

7 Gweithdrefn Gwyno

7.1 Mae gan y Cyngor weithdrefn gwyno ffurfiol pe bai busnesau neu breswylwyr am gwyno am ansawdd gwasanaeth maen nhw wedi'i gael. Pan na ellir datrys y gŵyn yn foddhaol, drwy Weithdrefn Gwyno'r Cyngor, gall yr achwynydd gwyno ymhellach i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

8 Adborth a Sylwadau

8.1 Rydym yn croesawu adborth ar y polisi hwn neu unrhyw un o'n polisiâu – cyfeiriwch unrhyw adborth neu sylwadau am y Polisi Gorfodi hwn at:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Rheolwr Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Adran Amgylchedd a Chynllunio
Ffordd Rhuthun
Wreccsam
LL13 7TU
Ffôn: 01978 298989
E-bost: public_protection_service@wrexham.gov.uk

Mae'r Polisi hwn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chyfryngau ar gais.

Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd CBSW

Atodiad A

Rhestr o bolisiâu sy'n benodol i 'faes pwnc'

Rheoleiddio

(Diweddarwyd ddiwethaf: Awst 2017)

- Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Trwyddedu
- Polisi Gamblo
- Polisi Diogelwch Meysydd Chwaraeon

(Lle bo'n briodol, mae gweithdrefnau a Chodau Ymarfer adrannol mewnol ar waith ar gyfer amrywiaeth o agweddau ar ddarparu gwasanaethau).